

## Ysgrifennu ar gyfer y Piano

### Cyweiriau

Er bod cerddorion proffesiynol yn hoffi sialens, peidiwch â gwneud pethau'n anodd iddynt yn fwriadol. Byddai'n well gennym chwarae mewn arwydd cywair gyda dau feddalnod na deg llonnod!!

### Pedalu

Mae'r mwyafrif o bianos acwstig yn cynnwys dau bedal – pedal meddal ar y chwith a phedal cynnal ar y dde. Yn gyffredinol, defnyddir y pedal cynnal ar y dde i uno deunydd gyda'i gilydd, sef 'pedalu legato'.

Yn arferol, bydd pianydd yn pedalu'r synhwyrol, ac nid oes angen i chi ddynodi hyn ar y nodiant.

Mae'n bosib byddwch chi eisiau nodi 'côn pedale' (gyda phedal) neu 'sec' (sych) ar ddechrau'r darn neu'r adran. Os yw'r gerddoriaeth yn cynnwys llawer o farciau stacato, yna bydd y pianydd yn defnyddio ychydig bach neu ddim pedal yn reddfol. Bydd angen i chi farcio pedalu manwl gywir os ydych chi eisiau i'r pedal i gael ei ddal i lawr trwy gydol adran neu ddilyniant penodol.

The image shows two musical examples, labeled 'a)' and 'b)', illustrating piano pedal technique. Both examples are in 2/2 time and feature a series of chords in the right hand and bass clef. Example 'a)' starts with a *mf* dynamic and includes markings for 'sempre sim.' (sempre sostenuto) above the chords. Example 'b)' also starts with *mf* and includes 'sempre sim.' markings. Below the staves, there are dashed lines with asterisks and arrows indicating the timing and duration of the pedal strokes. The score includes a measure number '22 (73)' at the beginning of example 'a)'.

### Canu glân

Byddwch yn glir ynglŷn â sut rydych chi eisiau i'ch darn i gael ei chwarae: mae cymaint o gyfuniadau o stacato a legato sy'n medru gwneud eich darn yn ddiddorol. Bydd brawddeg eich darn hefyd o gymorth i'r pianydd, er mwyn deall sut y mae i'w chwarae fel rhan unigol, a gydag offerynnau eraill.

### Cyweiriau gwahanol y piano

Arbrofwch gyda nodau isel, canol ac uchel y piano. Mae gwahanol rannau'r piano'n cynnwys gwahanol hydau o 'ddarfod' - os ydych yn chwarae nodyn isaf y piano ac yn ei ddal i lawr gall bara 30 eiliad neu fwy. Os gwnewch chi'n un fath gyda nodyn uchaf y piano, bydd yn diflannu wedi 3 i 4 eiliad. Felly, ni'ch cynghorir i gyfansoddi nodau hir neu gordiau yn y cwmpawd uchaf oherwydd eu bod yn diflannu'n rhy gloi. Mae'r ardal yma'n well ar gyfer digwyddiadau ailadroddus a deunydd ergydol lliwgar.

Mae gan ben isaf y piano llawer iawn o bŵer: gofawch eich bod yn treialu unrhyw gordiau isel a ysgrifennwch: yn aml, mae nodau isel sy'n cael eu chwarae'n agos at ei gilydd yn medru bod yn gymylog ac aneglur, yn enwedig yn y ddau wythfed gwaelod. Mae nodau sengl ar y llaw chwith ac wythfedau'n gweithio'n dda.

## Dwylo

Sicrhewch bob amser pan eich bod yn ysgrifennu cordiau bod modd eu chwarae nhw. Mae'r mwyafrif o bianyddion yn gyfforddus yn ymestyn un wythfed, ac mae rhai'n medru ymestyn degfed yn gyfforddus. Os ydych chi am sicrhau bod pianyddion yn medru chwarae eich darn, yna efallai dylech chi gyfyngu eich cordiau i wythfed o led.

Pan eich bod yn ysgrifennu cordiau, profwch bob amser p'un ai eich bod yn medru eu hymestyn: mae'r rhan fwyaf o bianyddion yn ddefnyddwyr llaw dde, felly mae'n gweithio'n dda os rowch chi ddeunydd mwy cymhleth i'r llaw dde na'r llaw chwith yn gyffredinol.

Wrth ysgrifennu ar gyfer y piano, caiff y bysedd eu rhifo o 1-5, gyda'r bys bawd ar bob llaw yn cael ei adnabod fel bys 1. Pan eich bod yn ysgrifennu cordiau sawl nodyn, sicrhewch nad oes gormod o ymestyn rhwng bysedd 3-4 a 4-5 yn y ddwy law - mae'r bysedd yma'n gymharol wan.

